

# PWYLLGOR IAITH: DYDD LLUN, 10 HYDREF 2022

## YN BRESENNOL:

**Y Cyngorwyr:** Elfed Wyn ap Elwyn (Cadeirydd),  
Llio Elenid Owen (Is-Gadeirydd)

Menna Baines, Jina Gwyrfai, Olaf Cai Larsen, Gwynfor Owen, Richard Glyn Roberts, Meryl Roberts, Peter Thomas, Elfed Wyn Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllian Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## ERAIL A WAHODDWDYD:

Cynghorydd Elwyn Jones (Cadeirydd y Cyngor) a Richard Medwyn Hughes (Is-Gadeirydd y Cyngor)

Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd) a Carwyn Meredydd (Uwch Swyddog Gweithredol Adran Amgylchedd).

Eitem 7: Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

Eitem 8: Dewi Morgan (Pennaeth Adran Cyllid).

Eitem 9: Llio Mai Dafydd (Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Y Cynghorydd Eirwyn Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Ni dderbyniwyd unrhyw fater bryd.

## 4. COFNODON

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2022 fel rhai cywir.

## 5. LLYWODRAETH CYMRU: LLYTHYR GAN WEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

Cyflwynwyd y llythyr hwn er gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor gan yr Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu a nodwyd y prif bwyntiau isod:

- Eglurwyd bod cyn-aelodau'r pwyllgor wedi ysgrifennu at Weinidog Y Gymraeg ac Addysg cyn yr etholiad ym mis Mai 2022 i ddatgan pryder nad oedd Microsoft Teams yn darparu cyfieithu ar y pryd ac roedd rhaid cynnal y cyfarfodydd yn Saesneg.

- Ymhelaethwyd bod y llythyr a yrrwyd gan y cyn-aelodau yn gofyn am gael darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn ddi-ofyn ym mhob cyfarfod er mwyn i'r cyfarfodydd gallu cael eu cynnal yn Gymraeg.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor drafod a holi cwestiynau:

- Mynegwyd siomiant ym mhenderfyniad y Llywodraeth i aros dwy flynedd a hanner cyn cynnal ei cyfarfodydd dros Zoom. Nid ydi Microsoft Teams wedi bod yn ymdopi'n dda gyda systemau cyfieithu ar y pryd yn ystod y cyfnod yma ac yn y cyfamser mae cyfieithu ar safon eilradd wedi cael ei ddarparu dros y ffôn wrth i fynychwyr ymuno â'r cyfarfod ar eu cyfrifiaduron. Ychwanegwyd bod rhaid i gyfranwyr hysbysu'r trefnwyr os ydynt yn dymuno siarad Cymraeg. Nodwyd os byddai 10% o fynychwyr y cyfarfod yn gwneud hyn, dyma pryd byddai'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu. Eglurwyd os nad oedd digon o geisiadau i gyfrannu yn Gymraeg, nid oedd dewis ond cyfrannu'n Saesneg.
  - Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democratiaeth ac Iaith bod Microsoft Teams newydd ddiweddarau ei systemau cyfieithu. Ymhelaethwyd bod y Cyngor yn ei dreialu ar hyn o bryd cyn ei ddefnyddio yn y cyfarfodydd. Cadarnhawyd bod profiad y defnyddiwr yn bwysig iawn ac felly ni fydd Microsoft Teams yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor nes bod ansawdd y gwasanaeth yn cyfateb â beth sy'n cael ei ddarparu gan Zoom.
  - Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, pwysleisiodd yr Ymgynghorydd Iaith nad nid dewis y Llywodraeth ydi gosod gofyniad o 10% o'r mynychwyr wneud cais i siarad drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd cyn cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Cadarnhawyd bod hyn yn rhan o safonau ieithyddol ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eu dilyn. O ganlyniad, mynegwyd bod y Llywodraeth yn cydymffurfio â'r safonau.
- Mynegwyd siomiant bod y Llywodraeth ddim yn teimlo eu bod nhw angen mynd gam ymhellach na'r safonau i annog mwy o siaradwyr Cymraeg. Ymholwyd pa mod rhagweithiol ydi'r Llywodraeth i hyrwyddo'r Gymraeg a sicrhau darpariaeth cyfieithu.
  - Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod agweddau amrywiol i hyrwyddo'r iaith o fewn y Llywodraeth. Ymhelaethwyd bod y Llywodraeth yn ddibynnol iawn ar swyddogion i hyrwyddo'r iaith ond nad ydi'r ddarpariaeth yno o hyd i allu gwneud hynny'n effeithiol.
- Cytunwyd bod y Llywodraeth angen bod yn cefnogi Swyddogion a Gweinidogion i siarad Cymraeg yn y gweithle. Cadarnhawyd bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ddull cyfoes o allu cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg ond mae angen mynd ymhellach i sicrhau dyfodol yr iaith.
- Gofynnwyd sut mae'r safonau iaith yn cael eu gosod.
  - Mawn ymateb i'r ymholiad, nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod y safonau yn rhan o ddeddfwriaeth y Llywodraeth. Cadarnhawyd bod y safonau yma yn cael eu monitro gan y Comisiynydd Iaith ac mae'r un safonau yn cael eu gosod ar Lywodraethau Lleol. Aethpwyd ymlaen i gadarnhau bod y safonau wedi cael eu hysgrifennu gyda'r meddylfryd bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Saesneg yn ddi-ofyn. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal eu cyfarfodydd yn Gymraeg yn ddi-ofyn ac felly yn mynd ymhellach na gofynion y safonau.
- Diolchwyd am y llythyr.

**PENDERFYNWYD**

- Ymateb i'r llythyr yn mynegi siom nad oedd eu hymateb yn fwy cadarnhaol. Bydd y llythyr hwn yn pwysleisio'r angen i annog siaradwyr Cymraeg i siarad Cymraeg yn y gweithle yn ogystal â gwella'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Cadarnhawyd bydd y llythyr hefyd yn gofyn am gadarnhad sut mae' llywodraeth yn hyrwyddo'r iaith gan eithrio dilyn y gofynion safonau ieithyddol wrth gynnal cyfarfodydd rhithiol.
- Trefnu trafodaeth yn y cyfarfod nesaf am ddyfodol cynghorau tref er mwyn sicrhau dyfodol defnydd yr iaith Gymraeg yn eu cyfarfodydd.

## **6. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN AMGYLCHEDD**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Adran Amgylchedd, Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd ac Uwch Swyddog Gweithredol Adran Amgylchedd a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod 91.7% o swyddogion yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd a mynegwyd balchder gan fod hyn yn uwch na chyfartaledd y Cyngor. Cadarnhawyd bod 78.5% o holl swyddogion yr adran wedi cwblhau hunan asesiad o sgiliau iaith ac mae'r adran yn annog y swyddogion sydd yn weddill i'w gwblhau cyn gynted â phosibl.
- Cadarnhawyd bod 14 o swyddogion yr adran ddim yn cyrraedd dynodiad ieithyddol ei swydd ond maent yn cael eu hannog i fynychu amrywiol gyrsgiau a hyfforddiant. Mae'r adran yn annog swyddogion i fanteisio ar gwrs gloywi iaith. Canmolwyd y safle wê gan ei fod yn adnodd da sy'n rhoi cymorth i swyddogion yn ogystal â'r fforwm iaith. Pwysleisiwyd bod sgysgiau o hyd yn dechrau yn y Gymraeg ac mae pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau fod pawb yn teimlo'n gyffyrddus i feithrin eu sgiliau a hyder ieithyddol.
- Pwysleisiwyd nad ydi'r ffigyrau hyn yn cynnwys swyddogion y gwasanaethau gwastraff sydd wedi trosglwyddo o'r adran Briffyrrd a Bwrdeistrefol yn ddiweddar.
- Mynegwyd balchder bod y gwasanaeth rheolaeth adeiladu wedi llwyddo i annog pobl i sicrhau bod enwau eu tai yn aros yn enwau Cymraeg, neu annog perchnogion i newid enwau eu tai yn ôl i'r Gymraeg gan ddangos pwysigrwydd enwau traddodiadol iddynt. Bu i'r gwasanaeth Cynllunio hefyd hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy ddilyn polisi PS1 sy'n rhoi ystyriaeth fanwl i'r iaith wrth ddelio gyda cheisiadau cynllunio.
- Eglurwyd bod cyfran o waith yr adran yn cael ei allanoli i gontractwyr. Sicrhawyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud i warchod yr iaith. Pwysleisiwyd bod gwahoddiadau i dendr yn ogystal â chanllawiau yn cael ei wneud yn y ddwy-ieithog. Nodwyd bod trafferthion yn gallu codi wrth geisio cyfieithu contractau cenedlaethol safonol gan bod ystyr y contractau yn gallu cael ei newid yn hawdd. Er hyn, adroddwyd bod yr adran wedi bod yn llwyddiannus i gael contractau Cymraeg gydag cwmnïau bws drwy teilwra contractau eu hunain.
- Manylwyd mai un o brif rwystrau sy'n wynebu'r adran yn ddiweddar ydi diffyg recriwtio. Cadarnhawyd ei fod yn anodd recriwtio swyddogion cymwysedig yn gyffredinol ar draws gwasanaethau'r adran a bod yr her yn dwysau wrth ymdrechu i recriwtio swyddogion cymwysedig sydd hefyd yn meddu a sgiliau ieithyddol digonol.
- Ymhelaethwyd bod yr adran wedi bod yn llwyddiannus i recriwtio hyfforddai proffesiynol yn y gwasanaeth traffig sy'n meddu a sgiliau ieithyddol cryf. Mae'r adran yn parhau i fuddsoddi ynddo er mwyn sicrhau ei fod yn gymwysedig i gyflawni'r rôl yn hyderus. Mynegwyd pryder bod sefyllfaoedd yn codi ble mae'r adran yn buddsoddi mewn pobl a'u bod yn eu colli yn y pendraw i'r sector preifat

neu awdurdodau lleol eraill gan fod y cyflog yn uwch yn y lleoliadau hyn. Yn anffodus, mae sawl swyddog o'r adran wedi newid swyddi i leoliadau eraill o herwydd hyn.

- Esboniwyd bod yr adran yn arwain ar daclo'r argyfwng newid hinsawdd a natur. Sicrhawyd bod yr holl drafodaethau sy'n cael eu cynnal yn digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg neu bod defnydd o'r iaith yn cael ei annog os nad oes modd eu cynnal yn gwbl Gymraeg.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Gofynnwyd a ydi trafferthion recriwtio wedi gwaethygu yn dilyn Pandemic Covid-19. Holiwyd hefyd pa gamau mae'r adran yn eu cymryd i sicrhau fod swyddogion newydd yn dysgu sgiliau Cymraeg pan fydd gofynion ieithyddol yn cael eu lleihau wrth hysbysebu am yr ail neu drydydd gwaith.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth Adran Amgylchedd bod trafferthion recriwtio wedi bod ers rhai blynyddoedd er mwyn sicrhau fod swyddogion yn gymwysedig ac yn meddu â sgiliau'r Gymraeg. Mae sgiliau ieithyddol dal yn bwysig ar gyfer swyddi yn yr adran hyd yn oed os ydi swydd yn cael ei hysbysebu mwy nag unwaith. Nodwyd bod mwy o ymgeiswyr yn ymgeisio am swyddi pan mae'r dynodiad iaith yn cael ei leihau. Bydd pwyso a mesur yn cael ei roi ar gyfer cymhwysedd yr ymgeiswyr a'u sgiliau ieithyddol er mwyn sicrhau bod y swyddog gorau yn cael ei recriwtio. Mae dibyniaeth yn cael ei roi ar yr ymgeisydd llwyddiannus hwnnw i feithrin eu sgiliau ieithyddol pan maent wedi cael y swydd ac yn naturiol mae rhai unigolion yn mynd i fod yn fwy ymroddgar i'r iaith nag eraill. Mae'r adran yn rhoi anogaeth a chefnogaeth i bawb sydd angen cymorth ychwanegol gyda'r Gymraeg yn syth wrth iddyn nhw gychwyn y swydd.
- Holiwyd os oes gan yr adran gynllunio unrhyw reolaeth ar enwau busnesau yn ogystal ag enwau tai. Teimlwyd bod enwau cwmnïau yn uniaith Saesneg yn ddiweddar ac fe fyddai'n ddefnyddiol i drigolion ac ymwelwyr petai enwau'r cwmnïau yn Gymraeg neu ddwyieithog.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd bod rheolaeth yr adran ar enwau busnes yn gyfyngedig gan nad yw pob arwydd angen caniatâd cynllunio. Dim ond mewn sefyllfa ble mae datblygiad neu arwydd angen caniatâd cynllunio bydd yr adran yn gallu rheoli bod enwau'r busnesau a hyrwyddir yno yn Gymraeg neu'n ddwyieithog a hynny drwy osod amod cynllunio i'r perwyl hyn.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu byddai'r sylwadau hyn yn cael eu pasio ymlaen i'r Adran Economi a Chymuned yn ogystal â'r Tim Cefnogi Busnes er mwyn iddynt bod yn ymwybodol o bryderon yr aelodau.
- Ystyriwyd os byddai'r adran yn debygol o recriwtio swyddogion di-gymraeg yn y dyfodol o ystyried bod mwy o bwysau a galw am eu gwasanaethau yn sgil deddfwriaethau newydd.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd nad ydi'r heriau recriwtio yn broblem sy'n newydd i'r adran. Gan fod trafferthion wedi bod ers rhai blynyddoedd mae'r adran yn ceisio denu ymgeiswyr mewn sawl ffordd gwahanol erbyn hyn. Nodwyd bod yr adran gynllunio wedi cael ei ddewis fel adran beilot ar gyfer prosiect cynllunio gweithlu sydd yn flaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor. Mae swydd ddisgrifiadau yn cael eu hadolygu a'u harfarnu er mwyn eu creu yn fwy cystadleuol gydag awdurdodau cyfagos. Mae cais wedi cael ei wneud gan yr adran er mwyn cael hyfforddai newydd i ymuno â'r tîm i dderbyn tair mlynedd o hyfforddiant cymhwyso hefyd. Er y trafferthion

## Dydd Llun, 10fed Hydref, 2022

recriwtio, mae'r adran yn ymwybodol bod y mwyafrif o'u gwaith yn delio â unigolion a'r cymunedau ac felly mae sgiliau iaith yn hanfodol. Ni fydd hyn yn newid ac bydd pob anogaeth a chefnogaeth i bawb ddatblygu sgiliau Cymraeg.

- Gofynnwyd sut mae'r iaith Gymraeg yn cael ei flaenoriaethu o fewn y gwasanaeth cynllunio pan mae llawer o newidiadau ar y gorwel a dim digon o swyddogion ar hyn o bryd i gyrraedd gofynion ar amser.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad adroddodd Pennaeth Adran Amgylchedd bod amserlenni ymateb i geisiadau cynllunio wedi llithro ychydig yn barod. Cyfaddefwyd bod pwysau ar y gwasanaeth gorfodaeth cynllunio, a heriau gyda'r amser gymerir i benderfynu ar geisiadau cynllunio, a bod hefyd oblygiadau ychwanegol o ran staffio gyda chyflwyno a gweithredu ar gyfarwyddyd Erthygl 4 i gael rheolaeth gwell o dai Haf. Bydd angen sicrhau bod swyddogion ychwanegol ar gael i ymdopi a'r llwyth gwaith. Fel trafodwyd yn gynharach, mae pob ymdrech yn cael ei wneud i ganfod ymgeiswyr cymwys gyda sgiliau Cymraeg digonol ac mae pob cefnogaeth ar gael i unrhyw ymgeisydd cymwys sydd angen cymorth i feithrin eu sgiliau ieithyddol. Ni fydd yr adran yn diystyru cais oherwydd bod yr ymgeisydd ddim yn cyrraedd safon dynodiad iaith y rôl, gan fod ymrwymiad unigolion i ymdrechu i wella eu sgiliau ieithyddol yn newid o achos i achos.
- Mynegwyd balchder bod dros 91% o swyddogion yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd a gofynnwyd os oes modd cael gwybod faint o'r staff sydd yn deall a siarad Cymraeg ond ddim yn cyrraedd y dynodiad ieithyddol.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd yr Ymgynghorydd Iaith bod adrannau'r cael adroddiad ar ddynodiadau iaith o leiaf dwywaith y flwyddyn a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu wrth drafod eitem olaf y cyfarfod hwn.
- Tynnwyd sylw at y ffaith fod Parc Cenedlaethol Eryri yn awdurdod cynllunio ar gyfer y Parc ac felly gyda'r cyfrifoldeb am ddelio gyda ceisiadau cynllunio, materion gorfodaeth ac am baratoi polisi cynllunio o fewn ardal y Parc
- Diolchwyd am yr adroddiad.

### PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## 7. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Cynorthwyol Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod 94.5% o swyddogion yr adran yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd. Yn anffodus, dim ond 39% o'r adran sydd wedi cwblhau'r holiadur. Gan mai dyma yw'r gyfradd leiaf o holl adrannau'r Cyngor, mae'n anodd dweud faint o bobl sydd yn cyrraedd eu dynodiad iaith.
- Ymhelaethwyd bod ystyriaeth wedi cael ei roi i fynediad at yr holiadur a bod nifer o staff rheng flaen yr adran wedi methu cwblhau'r adroddiad gan nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiadur. Trafodwyd gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg i geisio symleiddio'r holiadur ar lein yn ogystal â gyrru copi caled o'r holiadur gyda llythyr o eglurhad gan bennaeth yr adran ond yn anffodus nid yw'r mwyafrif o swyddogion wedi ei gwblhau, gan mai cynnydd o 14% sydd i'w weld yn nifer yr ymatebion i flwyddyn ddiwethaf.

## Dydd Llun, 10fed Hydref, 2022

- Trafodwyd gyda swyddogion i dderbyn adborth pan nad oedden nhw eisiau cwblhau'r holiadur a bu sawl rheswm o eglurhad:
  - Roedd rhai yn credu ei fod yn broses ddiwerth.
  - Roedd rhai yn poeni am eu dyfodol mewn cyflogaeth os nad oedden nhw'n cyrraedd y dynodiad iaith.
- Mynegwyd bwriad i weithio ar y cyd gyda'r Adran Amgylchedd i geisio cael mwy o adborth i'r holiadur hwn, gan gadarnhau bod gweithwyr casglu gwastraff bellach wedi trosglwyddo i'r adran honno.
- Eglurwyd bod recriwtio swyddogion proffesiynol a rheng flaen wedi bod yn rhwystr yn y cyfnod diwethaf. Mae hyn wedi bod yn broblem benodol gyda gweithwyr gwasanaeth casglu sbwriel a glanhau strydoedd yn ardal Meirionnydd. Er bod y dynodiad iaith yn sylfaenol yn y rolau yma, mae'r adran wedi gorfod pwysu a mesur pwysigrwydd cyflogi gweithwyr gyda sgiliau Cymraeg, gyda darparu gwasanaeth o safon.
- Adroddwyd bod yr adran wedi bod yn llwyddiannus yn penodi swyddog sydd wedi datblygu ei hyder a sgiliau ieithyddol. Bu i'r ymgeisydd gyflwyno ei gais yn y Gymraeg ac ers hynny wedi cael ei benodi yn amodol ei fod yn mynychu cwrs iaith yn Nant Gwrtheyrn. Roedd y swyddog yn awyddus iawn i fynychu a bellach yn cyfathrebu yn llafar ac yn ysgrifenedig yn safonol iawn ac yn hyderus ei natur.

Rhoddyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Mynegwyd pryder nad oedd rhai o dermau technegol yr adran yn cael eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Mae prosesau cyfieithu yn effeithiol iawn yng Nghymru ac felly holiwyd os oes modd ail ymweld a'r mater hwn.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd Pennaeth Cynorthwyol Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol bod amryw o gamau allanoli gwaith yn digwydd yn ddwyieithog ond yn aml iawn mae amodau yn cael eu cynnwys yn uniaith Saesneg oherwydd bod ystyr yn gallu amrywio'n hawdd wrth gael ei gyfieithu. Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif o'r dogfennau yn cynnwys yr iaith Gymraeg ond bod rhai manau sydd yn defnyddio Saesneg yn unig.
- Trafodwyd nifer o materion sy'n gysylltiedig â dynodiadau iaith. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys rheoli llithriad tuag at ddefnydd Saesneg yn y swyddfa er budd swyddogion sy'n dysgu Cymraeg, a chysidro bod rheolwyr llinell yn cymryd mwy o rôl i lenwi ffurflenni asesiad sgiliau iaith.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiadau, cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Iaith bod holl faterion sy'n ymwneud â dynodiadau iaith yn cael ei drafod yn Eitem 9 ar ddiwedd y cyfarfod hwn. Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi yn dilyn y cyflwyniad, y byddai'n briodol i'r aelodau eu gofyn yn ystod y drafodaeth honno.
- Ymfalchiwyd yn y straeon o swyddogion sydd wedi llwyddo i wella eu sgiliau Cymraeg ers ymuno â'r adran Amgylchedd yn ogystal â Phrifffyrdd a Bwrdeistrefol. Holiwyd os oes prosiectau ar y gweill i hyrwyddo llwyddiannau unigolion fel hyn i osod esiampl ar gyfer swyddogion eraill sy'n ceisio gwella eu sgiliau ieithyddol.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod llwyddiannau o'r fath yn cael eu rhannu ar safle iaith fewnol y staff. Yn ogystal â hyn mae Gwobr Dafydd Orwig ar gael yn flynyddol i annog swyddogion i barhau i feithrin eu sgiliau Cymraeg.

## PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.

## 8. CYNLLUN HYBU'R GYMRAEG: ADRAN CYLLID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth yr Adran Gyllid, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd bod y mwyafrif helaeth o staff yr adran wedi cwblhau'r hunan asesiad sgiliau iaith ddiweddar. Dengys y canlyniadau bod 216 o'r gweithlu yn cyrraedd dynodiad swydd, gyda 2 aelod o staff yn methu i'w gyrraedd. Nodwyd bod 96% o staff wedi llenwi'r hunan asesiad a bod y 4% sydd heb ei gwblhau, heb wneud hynny gan eu bod yn newydd i'w rôl. Cadarnhawyd bod y 4% yma yn gyfwerth â 11 aelod o staff.
- Ymhelaethwyd bod pob ymdrech wedi ei wneud er mwyn sicrhau bod y 2 aelod o staff nad oedd yn cyrraedd dynodiad iaith eu swydd yn cael eu hannog a chefnogi i fynd ar gyrsiau hyfforddi i fagu eu hyder. Cadarnhawyd bod y swyddogion yn yr achosion hyn wedi mynychu cyrsiau ond yn parhau i fod ychydig yn ddihyder yn eu sgiliau iaith ac wedi marcio eu hunain yn llym wrth lenwi'r asesiad.
- Manylwyd nad ydi'r adran wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd o'r gwaith. Mae'r adran yn cysylltu yn rheolaidd gyda cwmnïau technegol arbenigol yn ogystal â darparwyr technoleg gwybodaeth. Mae llawer o'r cwmnïau hyn yn dod o'r Unol Daliaethau fel rheol ac er bod pob ymdrech yn cael ei wneud i gychwyn trafodaeth yn Gymraeg, mae'r adran yn bod yn realistig i ystyried pryd gall gyrru dogfennau Cymraeg bod yn effeithiol neu'n rhwystrol. Er hyn, sicrhawyd nad ydi'r ffaith bod cysylltiadau gyda ychydig o'r cwmnïau hyn yn digwydd yn Saesneg ddim yn atal yr adran rhag darparu gwasanaeth Cymraeg o'r radd flaenaf i staff a thrigolion Gwynedd.
- Pwysleisiwyd bod y rhan fwyaf o ddogfennau yn cael eu cynnal yn ddwyieithog neu yn Gymraeg. Mae gwaith hanfodol wedi cael ei gyflawni i sicrhau bod holl dermau technegol yr adran wedi cael eu Cyfieithu ac felly mae gan bobl Gwynedd yr opsiwn i lenwi unrhyw ffurflen megis, ffurflenni trethi neu geisiadau am fudd-daliadau yn ogystal â darllen adroddiadau, yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno.
- Diweddarwyd bod y gwasanaeth technoleg gwybodaeth bellach wedi diweddarau meddalwedd Windows holl gyfrifiaduron y defnyddwyr yn y Cyngor i fod yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith diodyn y cyfrifiadur yn hytrach na Saesneg. Mae hyn wedi cael ei annog yn y gorffennol ond yn ddiweddar mae'r newid hwn wedi bod yn orfodol ar holl ddyfeisiau'r Cyngor.
- Esboniwyd bod yr adran wedi datblygu darpariaeth Dysgu Ddigidol ers mis Ebrill eleni. Bu i hyn gymryd lle yn dilyn y broses o ddirwyn cwmni Cynnal i ben a mewnoli'r gefnogaeth roeddent yn ei ddarparu. Fel rhan o'r gefnogaeth honno mae'r adran yn gyfrifol am ddarparu gliniadur i holl athrawon y sir ac yn y broses o ddarparu gliniaduron i holl ddisgyblion blynyddoedd 7 i 11 o fewn ysgolion Gwynedd. Cadarnhawyd bydd y rhain hefyd yn defnyddio Cymraeg fel iaith y cyfrifiadur.
- Eglurwyd bod ychydig o newid wedi bod i ddefnyddwyr allanol gan fod banc Barclays wedi cau cangau allweddol i'r adran gan gynnwys Caernarfon, Porthmadog a Dolgellau. Golyga hyn fod pobl yn colli'r cyfle i sgwrsio yn Gymraeg yn y banc ac yn debygol o orfod delio gyda'r banc ar lein neu dros y ffôn yn fwy aml. Er hyn, mae gwasanaeth amgen wedi cael ei sefydlu gyda'r swyddfa bost ac felly mae dibyniaeth yn cael ei roi ar allu staff y swyddfa bost i allu siarad Cymraeg.

- Cyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau eraill ble mae'r adran yn ceisio sicrhau defnydd o Gymraeg. Nodwyd bod cynllun cyfeillion wedi cael ei sefydlu ble mae dysgwyr Cymraeg yn cael ei baru gyda swyddog o wasanaeth arall yr adran ac yn cael cefnogaeth gyda meithrin eu sgiliau ieithyddol. Cyfeiriwyd hefyd bod mewnwyd yr adran yn cael ei ddiweddarau i gynnwys geiriadur o eiriau defnyddiol gwasanaethau'r adran i wneud defnydd o'r Gymraeg yn haws i'r staff. Cadarnhawyd bod yr adran yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg er mwyn sicrhau fod popeth yn cael ei wneud i alluogi swyddogion i weithio a chyfathrebu'n Gymraeg yn hyderus a naturiol.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Canmolwyd yr adran am eu penderfyniad pendant o newid iaith cyfrifiaduron o Saesneg i Gymraeg a holiwyd os oedd yr adran wedi derbyn unrhyw bryder neu ymateb negyddol yn sgil y newid hwn?
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Bennaeth Adran Cyllid bod staff y gwasanaeth technoleg gwybodaeth wedi bod yn ofni ymateb negyddol i'r newid yma. Er hyn, nid oes ymatebiad negyddol wedi bod. Yn naturiol, mae staff wedi cymryd amser i ddod i arfer gyda'r newid ond yn gyffredinol mae pawb yn cofio ble mae'r eiconau a botymau ac mae'r derminoleg Gymraeg wedi dal i fyny gyda hynny.
- Gofynnwyd a oes bwriad i ehangu'r cynllun cyfeillion i'w ddefnyddio ar draws y cyngor?
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd Pennaeth Adran Cyllid y byddai'n hapus iawn i wneud hyn o fewn yr adran. Er hyn, dim ond un swyddog sy'n gymwys ar gyfer y cynllun ar hyn o bryd ac felly nid oes sgôp i'w ehangu o fewn yr adran ar hyn o bryd.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad nododd y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg bod y cynllun hwn ar gael i bob adran o'r cyngor. Bu iddo gael ei greu yn wirfoddol gan unigolion wedi iddynt fynyachu cyrsiau gloywi iaith ac eisiau sicrhau bod defnydd rheolaidd o'r iaith er mwyn iddynt allu meithrin eu sgiliau.
- Diolchwyd am yr adroddiad.

## **PENDERFYNWYD**

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

## **9. DIWEDDARIAD PROSIECT BLAENORIAETH DYNODIADAU IAITH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Swyddog Dysgu a Datblygu'r Iaith Gymraeg, a thynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

- Adroddwyd ar hanes y prosiect dynodiadau iaith gan gadarnhau ei fod yn deillio o drafodaethau'r Pwyllgor Iaith yn 2015 cyn i safonau ieithyddol newydd ddod i rym yn 2016. Yn sgil y prosiect, mae gan y Cyngor well dealltwriaeth o'r gwahanol sgiliau ieithyddol sydd gan y gweithlu ac yn gallu cynnig cefnogaeth fwy addas i feithrin sgiliau ieithyddol y staff.
- Cadarnhawyd bod y prosiect hefyd wedi cael ei ddatblygu i roi dynodiadau iaith ar wahanol swyddi'r Cyngor. Bydd gan swyddogion fwy o ymwybyddiaeth o'r lefel sgil angenrheidiol i gwblhau'r gwaith yn effeithiol oherwydd hyn.
- Eglurwyd bod y prosiect wedi bod yn flaenllaw er mwyn sefydlu system iaith fewnol sy'n cadw'r wybodaeth am sgiliau iaith staff ac er mwyn sefydlu proses i rannu



## Dydd Llun, 10fed Hydref, 2022

gwybodaeth am gyrsiau, rhannu adborth a llwyddiannau gyda'r gwahanol adrannau. Hefyd fel rhan o'r prosiect, datblygwyd safle iaith mewnol. Dangoswyd gwahanol rannau o'r safle iaith hwn i'r aelodau.

- Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau a godwyd yn ystod y trafodaethau blaenorol a nodwyd y wybodaeth isod:
  - o Esboniwyd bod y broses o gasglu gwybodaeth drwy'r holiadur hunan asesu yn amrywiol. Nodwyd bod rhai pobl yn hapus i'w lenwi ar lein ac eraill yn dymuno derbyn copi papur. Eglurwyd bod y rheolwr yn darparu'r wybodaeth ar gyfer y prosiect mewn sefyllfaoedd ble nad oes gan weithwyr fynediad agos at gyfrifiadur, neu eu bod nhw yn weithwyr rheng flaen. Y bwriad ydi i'r wybodaeth gael ei gasglu yn y dull mwyaf syml i'r gweithwyr er mwyn i bawb gael cyfle i'w lenwi. Eglurwyd hefyd bod swyddogion y prosiect yn deall bod rhai pobl yn amheus o lenwi holiaduron a bod sgiliau iaith yn gallu bod yn fater sensitif i lawer.
  - o Tybiwyd bod nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg yn uwch mewn rhai adrannau nag beth sydd yn cael ei nodi yn y canfyddiadau. Nodwyd bod rhai pobl yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn cyrraedd y dynodiad iaith ac felly ddim yn cael eu cynnwys mewn rhai ffigyrau. Cadarnhawyd mai dyma oedd prif nod yr holiadur er mwyn sicrhau dealltwriaeth o'r gwahanol lefelau sgil sydd yn bodoli mewn gwahanol dimau er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth berthnasol ar gael i swyddogion.
- Dangoswyd copi o'r holiadur fel esiampl i'r aelodau.
- Nodwyd bod y prosiect ffurfiol yn dod i ben yn y misoedd nesaf. Cadarnhawyd bod y broses o gasglu gwybodaeth am sgiliau iaith staff yn parhau i ddiwedd, ond bod prif ffocws y swyddogion yn symud i sicrhau bod staff yn cael y gefnogaeth i ddatblygu eu sgiliau iaith.
- Prosiect ffurfiol yn dod i ben yn y misoedd nesaf. Cefnogi staff a chasglu holiadau yn dal i ddiwedd ond ffocws yn symud i gefnogaeth staff.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau'r pwyllgor holi cwestiynau:

- Holiwyd os ydi'r hunanasesiad ieithyddol yn cael ei gwblhau o fewn yr adran Addysg, gan ei fod yn broses sydd yn cael ei ddatblygu ar draws y Cyngor.
  - o Mewn ymateb i'r ymholiad, nododd y Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg fod yr hunanasesiad ar gael i staff yr adran, a bod rhai o swyddogion yr adran wedi bod yn cwblhau'r holiadur. Yn ddiweddar mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi cael ei sefydlu a bydd mwy o waith yn cael ei wneud er mwyn derbyn gwybodaeth am sgiliau iaith swyddogion yr adran Addysg yn sgil hyn. Bydd y strategaeth hon a chynllun diweddar Llywodraeth Cymru yn galluogi swyddogion yr adran i dderbyn mwy o gefnogaeth a gwersi Cymraeg os bydd yr angen yn codi.
- Diolchwyd am yr adroddiad.

## PENDERFYNWYD

- Derbyn yr adroddiad gan nodi sylwadau a dderbyniwyd.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 12:25yp.

**CADEIRYDD**